**Croeso i gylchlythyr Chwefror 2025 Vision Support, sy'n cynnwys ardaloedd:**

**Halton 0151 5117260**

**Caer 01244 478910**

**Gogledd Ddwyrain Cymru 01244 381515**

Helo i chi gyd gan bob un ohonom yn Vision Support! Gobeithio eich bod wedi mwynhau ein cylchlythyr mwy o faint ym mis Rhagfyr. Fel bob amser mae gennym ddigwyddiadau newydd gwych a newyddion i chi yn y rhifyn hwn, ond yn gyntaf, ydych chi erioed wedi meddwl am wirfoddoli?

## Mae Angen Cyfeillion Arnom!

Ydych chi'n cofio'r hen hysbyseb ffôn gyda Bob Hoskins... mae'n dda i siarad? Allen ni ddim cytuno mwy! Mae gennym rai cyfleoedd gwych ar hyn o bryd ar gyfer cyfeillion gwirfoddoli dros y ffôn, a'r peth gorau am hyn, heblaw gwneud rhai cysylltiadau gwych wrth gwrs, yw y gallwch ei wneud o gysur eich cartref eich hun!

Lle bynnag yr ydych chi, os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn gyfaill, neu os hoffech ddarganfod mwy am ein cyfleoedd gwirfoddoli a chodi arian cyfredol, ffoniwch ni ar y rhifau ffôn uchod. Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd ac mae Stef, ein hymgyrchydd codi arian newydd, mor gyffrous i gynllunio mwy o ymdrechion codi arian eleni!

# Vision Aid

*Busnes teuluol annibynnol, a sefydlwyd ym 1996*

Vision Support

Ymunwch â ni yn ein Sioe Deithiol Golwg Isel.

**Archwiliwch y datrysiadau diweddaraf gyda'n harbenigwr cyfeillgar a gwybodus, Jason Shaw.**

**Bydd gan Vision Support Swyddog Sgiliau Digidol hefyd ar gael ar gyfer cyngor Technoleg drwy gydol y sioe!**

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun 14eg Ebrill 2025** | **10am - 2pm. Vision Support, The Bluecoat, Upper Northgate Street, Caer, CH1 4EE.** |
| **Dydd Mawrth 15fed Ebrill 2025** | **10am - 2pm. Tŷ AVOW, 21 Egerton Street, Wrecsam LL11 1ND.** |
| **Dydd Mercher 16eg Ebrill 2025** | **10am - 2pm. Gwasanaethau Synhwyraidd Halton, 126 Widnes Road, Widnes, WA8 6AX.** |

## Yn Galw ar bob Golffiwr Brwd

Rydym wedi cael amser gwych yn ddiweddar gyda grwpiau beicio, dringo a cherddded yng Ngogledd Cymru a Sir Gaer, a nawr mae gan Halton sesiynau blasu newydd ar y gweill!
Ydych chi erioed wedi chwarae golff neu am roi cynnig arni? Bydd Cymdeithas Golff Ddall Cymru a Lloegr yn cynnal sesiwn blasu yn Halton.  (Dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau.) Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Roisin yn Halton ar **0151 511 7260** neu e-bostiwch hssinfo@visionsupport.org.uk

## Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol

Efallai eich bod wedi sylwi nad ydym wedi cynnwys amserlen y Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol yn y cylchlythyr y mis hwn.

Bu ychydig o newidiadau i'r gwasanaeth yn ddiweddar oherwydd i'n gyrrwr gwych Caerwyn ymddeol.  Rydym yn edrych ymlaen at gael ein gwasanaeth yn ôl ar waith a byddem wrth ein bodd pe byddech yn ein ffonio yn y cyfamser os oes angen unrhyw beth arnoch, neu os hoffech siarad â ni!

Unwaith y bydd y gwasanaeth yn ôl ar waith, bydd ein hamserlenni misol ar ein gwefan yn www.visionsupport.org.uk (cliciwch ar 'Get Support' ac yna 'Community Information Service' ar gyfer ein holl amserlenni cyfredol), neu gallwch hefyd ein ffonio drwy'r rhifau ffôn ar flaen y cylchlythyr hwn os byddai'n well gennych siarad â ni.
Diolch yn fawr iawn am eich dealltwriaeth wrth i ni orfod oedi'r gwasanaeth hwn am gyfnod byr.

**Rydym yn chwilio am godwyr arian** i redeg Hanner Marathon Caer ar 18fed Mai a/neu Farathon Caer neu Farathon Metrig ar y 5ed Hydref.

Mae'r rhain i gyd wedi'u lleoli **yng nghanol dinas Caer**, mae'n gyfle gwych i herio'ch hun wrth hefyd gefnogi Vision Support.

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n hoffi rhedeg? Gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch teulu gymryd rhan hefyd! Rhedwch gyda'ch gilydd, codwch arian, a gwnewch wahaniaeth.

**Disgrifiad o'r llun:** cefndir porffor gyda logo Vision Support gwyn ar y chwith a phedwar silwét oren o bobl yn rhedeg, gydag un ffigwr yn codi eu breichiau wrth ddathlu.

Ffoniwch **07821 649 066** neu e-bostiwch Sharding@VisionSupport.Org.Uk i gael mwy o wybodaeth a chofrestru'ch lle!



## Ymunwch â'n Grŵp Sinema Misol

Os ydych chi'n lleol i Gaer, efallai eich bod eisoes yn gwybod am ein dangosiadau ffilm sain-ddisgrifio misol yn y Storyhouse!  Mae'n ffordd wych o fwynhau'r ffilmiau diweddaraf mewn lleoliad hamddenol, hygyrch wrth gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd.

Ar ddydd Mawrth 4ydd Mawrth, byddwn yn gwylio 'A Complete Unknown' - ffilm hanfodol i gefnogwyr Bob Dylan a cherddoriaeth!

P'un a ydych chi'n dod o Gaer neu'n cynllunio diwrnod allan, cysylltwch â ni a chadwch le i ymuno â ni ar gyfer y profiad sinema gwych hwn!

**Disgrifiad o'r delweddau.** Ar y Brig: Logo Vision Support gyda dyluniad arddulliedig sy'n ymgorffori rîl ffilm a stribed crwm o ffilm, mewn arlliwiau porffor.

**Ar y Gwaelod:** Chwech o bobl yn sefyll y tu mewn i'r Storyhouse, sy'n ofod dan do modern gyda drysau gwydr. Maent yn gwisgo dillad cynnes, gan gynnwys siacedi a chotiau, ac mae rhai yn dal ffyn gwyn. Maent yn gwenu ar y camera ac yn sefyll yn agos at ei gilydd.



# Arddangosfa Gelf

I'r rhai ohonoch sy'n ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol, efallai eich bod wedi sylwi bod ein grwpiau gwych wedi bod yn creu celfwaith anhygoel a byddem wrth ein bodd yn dathlu mwy o gelfwaith a grëwyd gennych!

Rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn yn cynnal **arddangosfa gelf ar ddydd Llun 14eg Ebrill yn St Mary's Creative Space, St Mary's Hill, Caer CH1 2DW**. **10yb - 3yp.** Bydd hwn yn gyfle gwych i chi arddangos eich talent a bod yn rhan o gymuned fywiog o bobl greadigol.

Os hoffech i'ch celfwaith gael ei gynnwys yn yr arddangosfa, byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych! P'un a ydych yn arlunydd, yn ffotograffydd, yn gerflunydd, neu'n gweithio mewn cyfryngau cymysg, mae croeso i bob math o gelf.

Gall eich darn fod yn ymwneud ag unrhyw beth o gwbl, ond os ydych yn chwilio am ysbrydoliaeth, rydym yn eich gwahodd i archwilio thema canfyddiad - sut rydych chi'n gweld eich hun, sut rydych chi'n dehongli'r byd o'ch cwmpas, neu hyd yn oed sut rydych chi'n teimlo bod eraill yn eich gweld chi.

**Disgrifiad o'r llun:** logo Vision Support gydag eicon gwyn arddulliedig o balet peintiwr a brwsh paent ar ben y logo porffor.

Ymunwch â Vision Support ar gyfer taith gomedi ar ei sefyll i'r Storyhouse yng Nghaer i'w gwylio

# Chris McCausland Yonks!

Comedïwr ar ei sefyll a seren Strictly Come Dancing, Would I Lie to You, QI, The Last Leg, a llawer mwy!

**Dydd Sadwrn 3ydd Mai am 1pm yn y Storyhouse yng Nghaer**

Pris y tocynnau yw £34.50. Mae lleoedd yn gyfyngedig felly archebwch yn gynnar!



Ffoniwch **01244 478910**

neu e-bostiwch **sightline@visionsupport.org.uk**